

Annwyl gydweithiwr,

PAR: Prosiect Chwaraeon Cymunedol

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y Prosiect Chwaraeon Cymunedol. Yn ei gyfarfod diweddar, adolygodd Bwrdd Chwaraeon Cymru'r Achos Busnes Amlinellol ac mae'n bleser gennyf ddweud bod cefnogaeth gref ac unfrydol i newid ac i ddatblygu dull blaengar yn fyd-eang o weithredu mewn perthynas â chwaraeon cymunedol yng Nghymru.

Ers y dechrau un, mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar fanteision allweddol newid i ddinasyddion Cymru, ac mae'n parhau i wneud hynny; dod yn genedl iach ac egnïol ble mae pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes; ac ymateb yn gadarnhaol i'r dyheadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Drwy gyfrwng ein hymgyngoriad parhaus â'r sector chwaraeon, ceir cefnogaeth eang iawn i gyflwyno **fframwaith buddsoddi newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau** ar gyfer yr holl bartneriaid chwaraeon cymunedol, a chymeradwywyd hyn yn gadarn gan Fwrdd Chwaraeon Cymru. Bydd y fframwaith newydd hwn yn rhoi lle blaenllaw i anghenion y cyfranogwr a'r darpar gyfranogwr yn ein gwaith cynllunio. Ar ôl ei gyflwyno, bydd ein holl bartneriaid yn cael eu mesur yn erbyn eu cyfraniad tuag at gyflawni'r **3 chanlyniad allweddol** yma:

- cynyddu amledd y cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon - 'Gwirioni ar Chwaraeon'
- targedu anghydraddoldeb mewn cymryd rhan a darparu mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn rheolaidd
- datblygu a hyrwyddo'r 'Llwybr Chwaraeon' fel ei fod yn darparu cyfleoedd o safon i bawb ac yn galluogi i'n hathletwyr mwyaf talentog wireddu eu potensial.

Hefyd bydd **model cyflawni adolygedig** yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r fframwaith buddsoddi newydd hwn. Wrth galon y model hwn bydd cydweithredu effeithiol yn y sector, gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyd yn cydweithio i sicrhau'r effaith fwyaf ar chwaraeon, gan greu sector chwaraeon cysylltiol, rhywbeth sydd ar goll o'r model cyflawni presennol. Bydd yn esbonio swyddogaethau a chyfrifoldebau pob partner ac yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u sgiliau. Hefyd, yn bwysig, bydd yn llunio model tymor hir, cynaliadwy.

Yn y model hwn ceir rôl hanfodol i bob partner presennol, yn ogystal â chyfle i elwa o sgiliau a phrofiadau partneriaid a phartneriaethau newydd i helpu i ehangu chwaraeon.

I grynhoi, bydd y model cyflawni newydd yn cynnwys y canlynol:

Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol

- Ffordd well o weithio gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol i helpu i gynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan **ym mhob camp** ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Cyrff Rheoli Chwaraeon yn defnyddio eu gwybodaeth am chwaraeon i dargedu'n strategol y cyfleoedd i gymryd rhan drwy weithio mewn partneriaeth gyda chwaraeon eraill ac Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol.
- Yn seiliedig ar feini prawf y cytunwyd arnynt ar y cyd a chyflwr o barodrwydd, gofynnir i'r Cyrff Rheoli Cenedlaethol sydd wedi'u henwi arwain datblygiad **“cynllun i'r holl chwaraeon”** ledled Cymru, gan weithio tuag at gyfrifoldeb am yr holl fuddsoddiad gan Chwaraeon Cymru yn y gamp honno.
- I'r Cyrff Rheoli Chwaraeon nad ydynt yn bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt ar hyn o bryd a'r cyflwr o barodrwydd, bydd cyfleoedd cadarnhaol i gynyddu'r cyfranogiad yn eich camp ledled Cymru drwy gyfrwng dull wedi'i dargedu o weithredu, yn seiliedig ar alw.

Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol

- Creu Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddatblygu gweledigaeth a chynllunio datblygiad chwaraeon cymunedol yn strategol yn eu dalgylch daearyddol, a bod yn gyfrwng i gydlynu a chomisiynu cyllid Chwaraeon Cymru yn y dalgylch daearyddol hwnnw.
- Bydd yr Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol yn gyfrifol am y canlynol:
 - Rheoli cyllidebau sy'n mynd i awdurdodau lleol unigol ar hyn o bryd
 - Penderfynu sut orau i ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau (naill ai'n uniongyrchol eu hunain neu drwy bartneriaid presennol neu newydd)
 - Cydweithio â phob sefydliad arall yn eu hardal sy'n ymwneud â chwaraeon cymunedol.
- Bydd rhaid i'r Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol gael arweinwyr rhagorol a threfniadau llywodraethu cadarn, sy'n gallu cynrychioli buddiannau chwaraeon yn eu dalgylch daearyddol.
- Mae ein gwaith hyd yma'n awgrymu mai ffiniau'r byrddau iechyd sydd orau'n strategol (naill ai'n unigol neu ffiniau byrddau iechyd cyfun).

Mae rhagor o waith yn cael ei gynllunio i benderfynu ar union nifer yr Asiantaethau Chwaraeon Rhanbarthol. Bydd hyn yn galluogi i ni ystyried ein cynlluniau ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau arfaethedig i lywodraeth leol.

Y Camau Nesaf

Rydym yn deall pa mor bwysig yw sicrhau bod unrhyw newid strwythurol i chwaraeon cymunedol yn cael ei gynllunio'n ofalus iawn. Ein nod ni yw cyflwyno'r strwythur priodol a rheoli'r newid mewn ffordd ystyrlon.

Drwy gydol y prosiect hwn rydym wedi ceisio cynnwys llawer o sefydliadau i helpu i ddylanwadu ar ein ffordd o feddwl a'i datblygu, ac rydym yn bwriadu parhau â'r dull hwn o weithredu yn ystod cam nesaf datblygiad y prosiect, gan sicrhau'r defnydd gorau posib o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid presennol. Mae'r rhan fwyaf o'n partneriaid presennol wedi cymeradwyo'r dull seiliedig ar ganlyniadau hwn o weithredu. Hefyd mae rhai wedi mynegi dyhead i ddeall yn fanylach sut bydd y model cyflawni newydd yn gweithio'n ymarferol. **Rydym wedi gwrandao ar y sylwadau hynny ac rydym yn bwriadu ymgysylltu ymhellach yn ystod y misoedd sydd i ddod, er mwyn perffeithio'r newidiadau arfaethedig i'w dod â hwy'n fyw drwy ddatblygu astudiaethau achos.** Rydym yn bwriadu defnyddio'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i helpu gyda datblygu'r astudiaethau achos hyn.

Hefyd, **gofynnir i'n holl bartneriaid presennol ymateb i'r 3 chanlyniad allweddol fel rhan o'u cynigion cynllunio a chyllido ar gyfer 2016-17.** Bydd y dull hwn o weithredu'n ychwanegu rhagor o dystiolaeth ac enghreifftiau o arfer da o'r ffyrdd effeithiol o dargedu'r 3 chanlyniad allweddol ac yn paratoi'r sector yn well ar gyfer y newidiadau arfaethedig sydd i ddod. **Mewn perthynas â'r prosiect hwn, nid ydym yn cynllunio unrhyw newidiadau i gyllid ein partneriaid presennol yn 2016-17, oni bai y cytunir ar hynny ar y cyd.**

Wrth symud ymlaen, rydym yn bwriadu treialu'r gwaith hwn fel rhan o gam cyntaf defnydd cynyddol. Bydd yn cynnwys y canlynol:

- **Dewis Cyrff Rheoli Cenedlaethol i dreialu'r "cynlluniau chwaraeon llawn";**
- **Sefydlu dwy Asiantaeth Chwaraeon Ranbarthol beilot**

Bydd rhagor o wybodaeth am strwythur ac amserlenni'r cyfnod peilot ar gael ym mis Medi 2015.

Yn y cyfamser, os hoffech siarad â rhywun am y prosiect, anfonwch e-bost i: graham.williams@sportwales.org.uk

Ers y dechrau un, mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar fanteision allweddol newid mawr i ddinasyddion Cymru ac mae'n parhau i wneud hynny. Edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth barhaus i'r broses hon a'ch cyswllt parhaus â hi.

Yn gywir

Graham Williams

Graham Williams
Cyfarwyddwr Datblygu Chwaraeon
029 2033 8361